Cynhaliwyd cyfarfod or Cyngor ar 17 Mehefin 2021 am 7.30 yn Festri. Yn bresenol oedd Wyn Jones, Eryl Evans, Generys Roberts, Helen Jones, Medwyn Roberts a Gethin Jones, ar Clerc Carol Humphreys, cafwyd ymddiheuriadau gan Cyn. Peter Lewis a Llyr Jones.

Ethol Cadeirydd – Bydd Eryl Evans yn gadeirydd am y dair blynnedd nesaf ac penodwyd Helen Jones fel is-gadeirydd.

Datgan didordeb - bu ir clerc ddatgan ei diddordeb oherwydd bod anfoneb gan ei gwr ar yr agenda a oedd yn dilyn.

Cofnodion blaenorol – wedi ei cymeradwyo fel rhai cywir.

Gohebiaeth

1. Cadwyn Clwyd - llythyr yn penodi ein bod wedi bod yn llwyddiannus i gael grant or fferm wynt Brenig tuag gwneud ffens newydd yn y cae peldroed yn y pentref. Cafwyd y swm o £5889.00. Ac bu Hywel Jones yn cychwyn ar y gwaith yn fuan.
2. Cyngor Conwy - Cafwyd grant o £480.00 tuag at gwneud goliau newydd ir cael peldroed clerc i gysylltu a Myfyr Roberts ir gwneud.
3. Zurich Town and Council - yswiriant £276.21 pasiwyd iw dalu.
4. Nick Ferguson - Anfoneb am roi y cofnodion ar y wefan. £50 pasiwyd iw dalu.
5. HSBC yn y banc nodwyd.
6. Cyngor Conwy - precept £1600.00.
7. Cyngor Conwy - Treth y toiled am ddim.
8. Awdit Cymru - anfoneb am y gwaith archwilio cyfrifon llynnedd £269.85. pasiwyd iw dalu.
9. Cyngor Conwy - cais cynllunio Rhiw Coch dim gwrthwynebiad.
10. J Humphreys and co - Anfoneb am wneud y gwaith draenio gan Aeron Humphreys, pasiwyd iw dalu ar clerc i gael yr adaliad VAT yn ol yn fuan.

Unrhyw fater arall

Sgip - yn dilyn cael y sgip yn ddiweddar deallwn fod 'fridge' wedi ei gadael ar ol, y clerc i gysylltu efo Cyngor Conwy iw nol am gost ir Cyngor Bro. Cawn arddeall bod trigolion oddi allan i Lanfihangel yn defnyddio y gwasanaeth yma felly bu rhaid newid y drefn o gael sgip sef am ddiwrnod ac bod person yn gorychwilio y cynnwys sydd yn mynd iddi gan bod 'fridge' a theiars ddim yn gymwys i gael ei cynnwys.

Cymeradwyo cyfrifon - cafodd yr cyfrifon ei cymeradwyo ac fe arwyddwyd y ffuflen flynnyddol.

Archilio mewnol - mae'r cyfrifon nawr yn barod ir archwilydd mewnol sef Teleri Jones.

Safle ger 1 Bro Alwen - cafwyd llythyr yn datgan pryder am ddiogelwch ceir yn parcio ar y darn bach tir gyferbyn a Neuadd Wen, mae'r ceir cyn creu anhawster i blant basio pan yn defnyddio y llwybr bach. Pasiwyd i roi awydd dim parcio i fynnu gan bod Cyngor Bro yn gyfrifol am y safle.

Safle chwarae y plant tu ol ir tai Cyngor - cawn arddeall bod y ffens mewn cyflwr gwael y clerc i gysylltu efo'r Sir.

Fynwent - mae yna ychydig o goed wedi marw ac angen ei gwaredu cytunodd Wyn Jones i wneud y gwaith. Mae'r fainc yn y fynwent hefyd wedi dod i ddiwedd ei hoes ac awgrymwyd ein bod yn ceisio am arian grant o gronfa twrbein gwynt Bodtegir ac hefyd adnewyddu bwrdd picinic yn y Gro yr un pryd, pasiwyd i ofyn i Ian Evans am bris.

Ger yr afon  - mae angen tacluso a chael gwared o goed wedi marw or clwyf 'ash die back' ar lan yr afon cytunodd Wyn Jones i ymgymeryd ar gwaith.